Cydlynydd Gwirfoddolwyr
Proffil Rôl / Disgrifiad Swydd

Teitl Rôl :	**Cydlynydd Gwirfoddolwyr (Cytundeb 6 Mis)**
Yn Gyfrifol i :	Rheolwr Marchnata ac Ymrwymiad Cwsmeriaid
Oriau :	33.5 awr
Cyflog :	Gradd 3 - PCC 15 - £17072.00 (pro rata)
Pwrpas Cynradd :	Bydd cyfrifoldebau'r Cydlynydd Gwirfoddolwyr yn cynnwys recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd, cadw bas data o wybodaeth a sgiliau gwirfoddolwyr, paru gwirfoddolwyr i gyfleoedd sy'n gweddu i'w sgiliau, rhoi gwybodaeth gyson i wirfoddolwyr, ac ymddwyn fel llysgennad ar gyfer pob agwedd ar Lles Merthyr.

Cyfrifoldebau Arbenigol:

(paramedrau eang)

1. Recriwtio, hyfforddi a goruchwylio gwirfoddolwyr newydd;
2. Casglu gwybodaeth, argaeledd a sgiliau gwirfoddolwyr, a chynnal bas data cyfredol;
3. Sicrhau bod "Cytundebau Gwirfoddolwyr" yn cael eu dosbarthu i wirfoddolwyr, a'u bod wedi'u harwyddo a'u dychwelyd cyn ymrwymo â gwirfoddolwyr;
4. Defnyddio offer marchnata megis rhaglenni gwaith allanol, e-byst, a basau data gwirfoddolwyr;
5. Cadw gwirfoddolwyr newydd a chyfredol yn hyddysg am y sefydliad a chyfleoedd gwirfoddoli;
6. Paru gwirfoddolwyr i gyfleoedd sy'n gweddu i'w sgiliau, gan sicrhau maent yn deall eu cyfrifoldebau ac yn derbyn yr hyfforddiant priodol;
7. Trefnu hyfforddiant ac arwain hyfforddiant mewn swydd;
8. Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn aros yn gyfredol ac yn cynnal deallusrwydd da o weithdrefnau sefydliad a lleoliad gan gynnwys gweithdrefnau tân, diogelwch a gwacáu;
9. Cadw amserlenni a chofnodion o waith gwirfoddolwyr;
10. Paratoi codau ymddygiad a gweithdrefnau gweithredu i gynnal gwerthoedd y sefydliad;
11. Sicrhau bod pob gweithgaredd yn hybu Lles Merthyr mewn golau positif i'r cyhoedd;
12. Rheoli, olrhain a phrosesu unrhyw dreuliau ariannol y cytunwyd o flaen llaw achosir gan wirfoddolwyr;
13. Sicrhau y cynhelir perthynas cytûn a phositif rhwng gwirfoddolwyr a gweithwyr cyflogedig trwy weithdrefnau da, eglurdeb rolau priodol, ymddiriedaeth ar y cyd, a chymorth. Delio ag unrhyw anghydfodau'n sensitif ac yn broffesiynol, yn eu codi gyda'r Rheolwr Marchnata ac Ymrwymiad Cwsmeriaid pan fo angen;
14. Chwilio'n gyson am ddulliau i weithwyr a gwirfoddolwyr ddeall rolau ei gilydd yn well.

Mesuriadau Llwyddiant:

- Rhaglen gwirfoddoli fywiog ac actif dros y sefydliad cyfan mewn amgylchedd saff a diogel
- Creative and lively volunteer activities delivered to engage audiences, participants, the general public and partners
- Gweithgareddau gwirfoddoli creadigol a bywiog a gyflawnwyd i ymrwymo cynulleidfaoedd, cyfranogwyr, y cyhoedd cyffredinol a phartneriaid

Gosoda'r proffil rôl yma brif ddyletswyddau a pharamedrau'r swydd ar y dyddiad y'i lluniwyd. Gall y dyletswyddau hynny amrywio o bryd i'w gilydd heb newid cymeriad cyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb y disgwylir. Bydd dyletswyddau ac anghenion eraill, felly, yn gysylltiedig â'ch rôl ac o hynny, fel amod o'ch cyflogaeth efallai bydd gofyn i chi ymgymryd â dyletswyddau amrywiol eraill yn ôl gofyn rhesymol. Mae amrywiaethau tebyg yn ddigwyddiad cyffredin a methu, ar eu pennau eu hunain, â chyfiawnhau ail-ystyriaeth o'r swydd.

WellbeingMerthyr Wellbein@Merthyr
Mae Lles Merthyr yn gwmni a gyfyngir drwy warant â statws elusennol
Wellbeing Merthyr is a company limited by guarantee with charitable status
Rhif y Cwmni / Company No. 09172730 / Rhif Elusen Gofrestredig / Registered Charity No. 1160964
Yn Creu Cymunedau Iachach A Hapusach
Creating Healthier and Happier Communities

Cydlynydd Gwirfoddolwyr

Beth ry'n ni'n edrych amdano (Manyleb Person)

Wrth baratoi eich cais ysgrifenedig, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth yn erbyn y criteria isod, un ai mewn sefyllfa gwaith neu sefyllfa bersonol. Efallai y dymunwch ddefnyddio'r model STAR. Esboniwch y Sefyllfa'n fras, y Tasgau a'r Gweithgareddau (Actions) roedd angen i chi eu cymryd, a'r Canlyniadau (Results) i chi, y cwsmer a'r sefydliad.

A. Gwybodaeth a Phrofiad

Rhif	Nodwedd	Criteria	Mesurwyd
1.	Y gallu i weithio dros nifer o leoliadau a mathau o wasanaeth gan sicrhau darpariaeth gwasanaeth o safon uchel	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
2.	Y gallu i adnabod, magu a rheoli perthnasau gydag ystod eang o bobl, gan gynnwys preswylwyr lleol, rhanddeiliaid a phartneriaid allanol	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
3.	Profiad o "feddwl tu hwnt i'r bocs" a datblygu ymatebion creadigol a dyfeisgar i ddatrys problemau	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
4.	Profiad o amgylchedd gwasanaeth cwsmeriaid	Hanfodol	Cais a Chyfweliad

B. Sgiliau a Medrau

Rhif	Nodwedd	Criteria	Mesurwyd
1.	Gonestrwydd personol cryf iawn ac ymrwymiad i gynnal y safonau uchaf posib. Yn ymddiriedus, agored a gonest	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
2.	Cydweithredol ac yn canolbwyntio ar y tîm	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
3.	Gydag angerdd personol at wneud gwelliannau yn Lles@Merthyr trwy raglen gwirfoddoli fywiog	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
4.	Ymrwymiad i nodau, gwerthoedd a dyfodol Merthyr Tudful trwy waith yr Ymddiriedolaeth mewn cydweithrediad â'r Cyngor a'r holl rhanddeiliaid	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
5.	Profiad o wneud gwahaniaeth a chyflawni canlyniadau	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
6.	Y gallu i ddatblygu perthnasau adeiladol, sy'n parhau	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
7.	Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig ardderchog	Hanfodol	Cais a Chyfweliad

C. Gwerthoedd Rheoli

Rhif	Nodwedd	Criteria	Mesurwyd
1	Gwerthfawrogiad o, ac ymrwymiad i ddiwylliant ac athronyddiaeth neilltuol y sefydliad	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
2	Chwaraewr tîm, gydag ymrwymiad i weithio dros dimoedd gan ddangos gonestrwydd	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
3	Ymrwymedig i ddarparu arbenigrwydd gwasanaeth	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
4	Yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol cyson ac yn annog i eraill wneud yr un un fath	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
5.	Mae agwedd bositif "gall-wneud" ganddynt	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
6.	Sgiliau cyfathrebu cryf, trwy sawl cyfrwng gwahanol	Hanfodol	Cais a Chyfweliad

WellbeingMerthyr Wellbein@Merthyr
Mae Lles Merthyr yn gwmni a gyfyngir drwy warant â statws elusennol
Wellbeing Merthyr is a company limited by guarantee with charitable status
Rhif y Cwmni / Company No. 09172736 / Rhif Elusen Gofrestredig / Registered Charity No. 1160964
Yn Creu Cymunedau Iachach A Hapusach
Creating Healthier and Happier Communities

7.	Agwedd hyblyg tuag at lwythi gwaith a thasgau, yn poeni am ein cymunedau	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
8.	Arddangos ymddiriedaeth, didwylledd a pharch wrth ddelio ag eraill	Hanfodol	Cais a Chyfweliad

Ch. Anghenion Eraill

Rhif	Nodwedd	Criteria	Mesurwyd
1.	Gwybodaeth weithredol o raglenni cyfrifiadurol amrywiol megis Word, Office a.y.b.	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
2.	Y gallu i weithio oriau anghymdeithasol dros amrywiaeth o batrymau shifftiau	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
3.	Y gallu i weithio dros ystod o bwyntiau gwasanaeth ac ardaloedd darparu	Hanfodol	Cais a Chyfweliad
4.	Profiad o weithio o fewn gwirfoddoli neu recriwtio	Dymunol	Cais a Chyfweliad

D. Cymwysterau

Rhif	Nodwedd	Criteria	Mesurwyd
1.	Lleiafswm o 5 TGAU neu debyg, neu'r gallu i arddangos profiad addas	Hanfodol	Cais a Chyfweliad

Dd. Yr Iaith Gymraeg

Rhif	Nodwedd	Criteria	Mesurwyd
1.	Y gallu i siarad Cymraeg	Dymunol	Cais
2.	Y gallu i wrando a deall sgyrsiau yn y Gymraeg	Dymunol	Cais
3.	Y gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg	Dymunol	Cais
4.	Y gallu i ddarllen Cymraeg	Dymunol	Cais

WellbeingMerthyr Wellbein@Merthyr
Mae Lles Merthyr yn gwmni a gyfyngir drwy warant â statws elusennol
Wellbeing Merthyr is a company limited by guarantee with charitable status
Rhif y Cwmni / Company No. 09172736 / Rhif Elusen Gofrestredig / Registered Charity No. 1160964
Lles @Merthyr Yn Creu Cymunedau Iachach A Hapusach
Wellbeing @Merthyr Creating Healthier and Happier Communities